

## CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 3 Medi, 2015

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Rhodri Jenkins (Cadeirydd); Brython Davies, Eluned Evans, Jane Hopkins, Alun Jenkins, Phil Lloyd, James Raw a'r Cyng. Rhodri Davies.

### 1. YMDDIHEURIADAU

Elise Powell

### 2. COFNODION 2 Gorffennaf, 2015

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir. Cynigiwyd cywirdeb gan Jane Hopkins ac eiliwyd gan Brython Davies.

### 3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

(a) **Blwch Ffônau Coch.** Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn cytundeb gan BT am bwrcasu'r Ffonau Coch. Deallwyd fod gan Gofnodion Cwmystwyth ddiddordeb mewn egwyddor i gymryd drosodd y Blwch yng Nghwmystwyth. Y Clerc i wneud ymholiadau pellach i'r posibilrwydd o drosglwyddo'r Blwch yma i sefydliad Cofnodion Cwmystwyth yn uniongyrchol. Cyfeiriwyd hefyd y derbyniwyd manylion wrth CADW fod statws adeilad cofrestredig ar y blwch coch yn Nhrisant.

#### (b) **Dwr yng Nghwmystwyth**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn canlyniad y profion dwr gan Swyddog o'r Cyngor Sir ac mai dwr naturiol oedd yn llifo allan i'r ffordd. Nodir fod y dwr yn parhau i lifo allan i'r ffordd a'r Clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir i ofyn iddynt atal y llif dwr cyn diwrnod Eisteddfod Cwmystwyth, gan nodi bod y dwr yn achosi tyllau yn y ffordd.

#### (c) **Toiledau ym Mhontarfynach**

Cyfeiriwyd at y *Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) - Darparu toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio*. Penderfynwyd i'r Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir yn cyfeirio at y Bil uchod gan ail ofyn am i'r toiledau ym Mhontarfynach gael eu cadw ar agor dros fisoedd y Gaeaf.

### 4. GOHEBIAETH

(a) Gwahoddiad gan Gymorth Cynllunio Cymru i weithdy Cynllunio ar y 7fed o Fedi 2015 o 5.30 y.h. - 8.30 y.h. Jane Hopkins a'r Clerc i fynychu.

(b) Derbyniwyd wybodaeth ychwanegol wrth yr Arolygiaeth Gynllunio yn nodi nad oedd Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnig unrhyw sylwadau ychwanegol yn ymwneud a "*Dyfed County Council - Wildlife & Countryside Act 1981 - Definitive Map Reclassification Order 1991 "Upper Llanfihangel" Rups 20/37, 20/38, 20/44*" a bod gan y Cyngor Bro hyd yr 17eg o Fedi i gyflwyno sylwadau, ond cytunwyd nad oedd sylwadau ychwanegol i'w cyflwyno.

## **5. CYLLID**

- (a) Nodwyd fod £311.88 yn y cyfrif cyfredol a £8,650.37 yn y cyfrif cadw.
- (b) Derbyniwyd swm o £20.90 wrth y Cyngor Sir am ail-gylchu gwydr ym Mhontarfynach.

## **6. UNRHYW FATER ARALL**

- (a) Cyfeiriwyd fod angen torri canghennau coed sy'n gorlifo allan i'r ffordd ger mynedfa Spring Hill. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.
- (b) Hen arwydd Mynydd Bach wedi ei dderbyn yn ôl gan y Cyngor Sir. Trefniadau mewn llaw i'w leoli yn Ysgol Mynach fel eitem hanesyddol.
- (c) Y Clerc i atgoffa Swyddogion y Cyngor Sir am arwyddion ar gyfer ffordd Rhos Perian yng Nghwmystwyth.
- (ch) Arwyddion Llwybr Cyhoeddus. Deallir fod nifer o gwynion wedi eu derbyn yn ddiweddar fod y cyhoedd yn cerdded oddi ar lwybrau cyhoeddus ar dir preifat. Y broblem yn deillio fod arwyddion wedi cael eu rhoi wrth ymyl y ffordd fawr yn cyfeirio at lwybrau cyhoeddus ond nid oes digon o arwyddion yn cyfeirio aelodau o'r cyhoedd pa ffordd i fynd pan fydd fforch yn y llwybr. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir at y broblem dan sylw gan ofyn am sylw brys i'r sefyllfa ar hyd yr ardal.
- (d) Cyfeiriodd y Cyng. Rhodri Davies nad oedd grant ar gael bellach ar gyfer cwblhau Rhan 3 y llwybr troed ym Mhontarfynach ond edrychir am ffurf eraill o ariannu.
- (dd) Cyfeiriwyd y derbyniwyd cwynion am faint yr arwyddion yn dynodi Safle Tynrhyd wrth gornel Tynrhyd ar y fynedfa i'r ffordd fawr.
- (e) Nodir hefyd at leoliad arwydd 'ar werth' ar dy wrth y Gofgolofn ym Mhontarfynach a bod yr arwydd yn amharu ar welededd wrth ymuno gyda'r gyffordd.
- (f) Cytunwyd i dalu cyflog a chostau i'r Clerc - £518.94 (£489.60 cyflog a £29.34 costau) o 1af Ebrill - 31ain Awst, 2015 a £122.40 i HMRC ar gyfer PAYE y Clerc. Cynigiwyd y taliad gan Phil Lloyd ac eiliwyd gan Jane Hopkins.

## **7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

Nos Iau 1af Hydref, 2015 yn Ysgol Mynach.